



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democraidd
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

Dyddiad ac Amser

4.30 y.h., DYDD MERCHER, 20FED RHAGFYR, 2017

Lleoliad

Plas Heli, Pwllheli, LL53 5YQ

Pwynt Cyswllt

Bethan Adams

01286 679020

BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 12/12/17)

CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

AELODAETH

Cynghorwyr Gwynedd

Anwen Davies
Simon Glyn
John Brynmor Hughes
Aled Wyn Jones
Gareth Williams

Eraill

Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanbedrog, Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.

Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol

Ymddiriedolaeth Genedlaethol,
Cyfoeth Naturiol Cymru,
Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,
Cyfeillion Llŷn,
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,
Undeb Amaethwyr Cymru,
Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,
Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd,
Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn.

R H A G L E N

1. CADEIRYDD

I ethol cadeirydd am y flwyddyn 2017/18.

2. IS-GADEIRYDD

I ethol is-gadeirydd am y flwyddyn 2017/18.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw bryd ym marn y Cadeirydd.

6. COFNODION

4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 6 Medi 2017, fel rhai cywir.

7. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE - NEWIDIADAU ARFAETHEDIG

9 - 25

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn.

CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 6/9/17

Yn bresennol:

T. Victor Jones (Cyngor Cymuned Llanbedrog) (Cadeirydd)

Aelodau: Y Cynghorydd Gareth Williams (Cyngor Gwynedd), Eirian Allport (Cyngor Cymuned Clynnog Fawr), Noel Davey (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), Brett Garner (Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn), John Gosling (Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn), Laura Hughes (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Morgan Jones-Parry (Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor), Sian Parri (Cyngor Cymuned Tudweiliog), Sianelen Fleming (Cyngor Cymuned Pistyll), Alun Price (Cyfoeth Naturiol Cymru), Hedd Rhys (NFU Cymru) a Gruffydd Williams (Cyngor Tref Nefyn).

Swyddogion: Bleddyn P. Jones (Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn), Elin Wyn Hughes (Swyddog Prosiect AHNE Llŷn), Wyn Williams (Rheolwr Cefn Gwlad a Mynediad) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Anwen Davies, Simon Glyn a John Brynmor Hughes (Cyngor Gwynedd) ynghyd â Jina Gwyrfai (Cyngor Cymuned Llanaelhaearn), Gillian Walker (Cyfeillion Llŷn) a Wenda Williams (Cyngor Cymuned Aberdaron).

Croesawodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yr aelodau i'r cyfarfod. Nododd bod dynodiad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn wedi ei sefydlu yn 1957 gan roi statws gwarchodaeth i'r ardal. Manylodd ar waith yr Uned AHNE.

Cyflwynodd pawb eu hunain.

1. ETHOL CADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd am y flwyddyn 2017-18. Nododd aelodau eu dymuniad i'r Cadeirydd presennol barhau. Eglurwyd mai blwyddyn oedd tymor Cadeirydd felly ni ellir ail-ethol.

Nododd aelodau eu dymuniad i aros tan y cyfarfod nesaf i ethol Cadeirydd i roi cyfle i'r aelodau eraill nad oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD ethol T. Victor Jones yn Gadeirydd am y cyfarfod yma.

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i'r cyn aelodau am eu cyfraniad i'r Cydbwyllgor a croesawodd yr aelodau newydd a oedd yn mynychu eu cyfarfod cyntaf.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd Gruffydd Williams (Cyngor Tref Nefyn) fuddiant personol yn eitem 8 ar y rhaglen oherwydd ei fod yn aelod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd. Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawodd yr ystafell yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2017, fel rhai cywir.

Adroddodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn na allwyd gweithredu ar gais y Cydbwyllgor yn y cyfarfod diwethaf i'r Aelod Cabinet - Cynllunio a Rheoleiddio i ddiwygio cyfansoddiad y Cydbwyllgor i nodi y dyrennir seddi Aelodau Lleol yn unol â threfniadau Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor ac i ddileu'r cymal "Aelodau Cyngor Gwynedd i gael eu cylchdroi yn dilyn etholiadau lleol". Eglurodd o'r herwydd bod aelodau Cyngor Gwynedd ar y Cyd-Bwyllgor wedi eu cylchdroi.

Holodd aelod parthed adolygiad Tirweddau'r Dyfodol Cymru. Mewn ymateb, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn bod y broses yn parhau ac fe gyflwynir adroddiad yn diweddarau'r aelodau ar yr adolygiad yn y cyfarfod nesaf.

4. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE

Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn cyflwyno Cynllun Rheoli'r AHNE diwygiedig drafft i sylw'r Cyd-Bwyllgor yn unol â'r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod diwethaf i'w drafod cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

Eglurwyd bod penodau Rhan 1 a 2 o'r cynllun wedi bod gerbron y Cyd-Bwyllgor am sylwadau dros nifer o gyfarfodydd. Roedd y cynllun diwygiedig cyflawn gerbron yn cynnwys y Rhaglen Weithredu sef y gweithredoedd a'r prosiectau manwl y bwriedir eu cyflawni yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Gofynnwyd i'r Cyd-Bwyllgor ystyried y Cynllun Rheoli diwygiedig drafft, awgrymu newidiadau neu welliannau a derbyn y cynllun diwygiedig drafft fel sail ar gyfer ymgynghori cyhoeddus.

Nodwyd yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus bwriedir dychwelyd i'r Cyd-Bwyllgor gyda manylion o'r ymatebion a dderbyniwyd ac argymhellion i newid y Cynllun.

Rhoddyd cyfle i'r aelodau roi sylwadau, nodwyd y prif bwyntiau canlynol gan aelodau unigol:

- Yr angen i ddiweddarau gwybodaeth yn y Cynllun;
- Holodd aelod o ran oes y Cynllun, gan y nodir ei fod yn gynllun am y cyfnod 2015 i 2020 ond ni fabwysiedir tan 2017;
- Y byddai cynnwys lluniau a graffiau yn y Cynllun yn ei fywiogi a'i wneud yn haws i'w ddarllen;
- O ran ffigyrau twristiaeth, roedd ffigyrau 2011 STEAM wedi eu cynnwys ond bod ffigyrau 2015 ar gael. Tynnwyd sylw yn y cyfarfod diwethaf bod y ffigyrau yn gamarweiniol gan na ellir cael dadansoddiad mor fanwl;
- Y dylid ystyried cyfeirio mwy at Lwybr yr Arfordir, roedd yn denu mwy o bobl i'r ardal ac fe fyddai cyfeirio at y llwybr yn rhoi pwysau ar yr angen i fuddsoddi mewn llwybrau eraill, er enghraifft, llwybrau cylchol;
- Y dylid cynyddu'r cyfeiriadau yn y Cynllun at y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLL) gan gyfeirio at Bolisi AMG1 sy'n cyfeirio at Gynllun Rheoli'r AHNE;
- Fe gyfeirir at nifer o astudiaethau yn y Cynllun, a fyddai'n bosib cynnwys llyfryddiaeth?
- Nid oedd Botwnnog wedi ei gynnwys ar y map o'r AHNE;
- Y dylid nodi lle trafodir tyrbinau gwynt bod y CDLL yn rhoi cyfyngder uchder o 15 metr a chynnwys crynhoad o faint o dyrbinau gwynt a dderbyniodd caniatâd cynllunio;
- O ran planhigion ymledol, a adnabuwyd Jac y Neidiwr?
- Pryder o ran effaith gronnol dymchwel ac adeiladu tŷ newydd gyda cheisiadau o'r fath o flaen cynllunio yn aml. Fyddai'n bosib i'r Cynllun gyfeirio at yr angen i arbed tai rhag cael eu dymchwel mewn llyfydd fel Abersoch?
- Pryder o ran effaith gronnol datblygiadau a'r angen i drafod efo perchnogion meysydd carafanau o ran y ffordd ymlaen yng nghyswllt sgrinio a chydweddu i'r ardal cyn difetha beth sy'n denu ymwelwyr i'r ardal;

- Y dylid edrych i mewn i 'Rollback Rights' fel sydd yn Lloegr, yng nghyswllt llwybrau arfordir yn disgyn i'r môr gan fod y broses bresennol yng Nghymru yn hirwyntog ac fe gollir adnodd holl bwysig. Angen pwysu ar Lywodraeth Cymru;
- Bod rhaid bod yn ofalus o ran ymestyn hawliau Llywodraeth Cymru o ran gorfodaeth ar dir arfordirol oherwydd yr effaith ar dirfeddianwyr gan gynnwys oblygiadau cyfrifoldebau atebolrwydd ac effaith cŵn yn ymyrryd ar stoc;
- Yng nghyswllt polisi CP 6 "Hyrwyddo darpariaeth o dai fforddiadwy lle profir bod gwir angen lleol a sicrhau fod cynlluniau, dyluniadau a deunyddiau yn gweddu i amgylchedd yr AHNE.", y dylai'r Cyngor sicrhau bod yr incwm a dderbynnir o ganlyniad i'r premiwm treth ar ail gartrefi yn yr ardal i aros ym Mhen Llŷn ar gyfer tai fforddiadwy a chymorth i bobl ifanc i brynu tŷ yn yr ardal.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y swyddogion:

- Diweddarir y cynnwys cyn y rhyddheir y cynllun drafft ar gyfer ymgynghori cyhoeddus;
- Bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i gynlluniau AHNEau gyd-redeg ond fe wneir ymholiadau o ran cyfnod y cynllun;
- Fe ychwanegir lluniau i'r Cynllun er mwyn ei ysgafnhau ac efallai y byddai cyfle i lunio dogfen gryno haws i'w ddarllen;
- Yn dilyn derbyn sylwadau yn y cyfarfod diwethaf y gwnaed ychydig o newidiadau o ran ffigyrau twristiaeth. Nodir y rhybudd o ran y ffigyrau ac fe ddiweddarir y wybodaeth efo ffigyrau 2015;
- Y byddai llyfryddiaeth yn cael ei gynnwys;
- Bod prosiectau posib wedi eu cynnwys yn y cynllun gweithredu o dan BP 6 "Trin rhywogaethau ymledol cynhenid ac estron a chodi ymwybyddiaeth amdanynt a'r ffordd o'u trin a'u gwaredu". Roedd cyfrifoldeb ar dir feddianwyr i atal rhag ymledu, nid oedd Jac y Neidiwr wedi ei gynnwys yn y Weeds Act 1959;
- Bod y bennod 'Yr Amgylchedd Hanesyddol' yn delio efo'r angen i gynnal a gwarchod adeiladau hanesyddol yn ogystal â gwarchod dyluniad a'r defnydd o ddeunyddiau addas. Mater i'r Gwasanaeth Cynllunio oedd ceisiadau cynllunio;
- Y gellir cynnwys yn y cynllun gweithredu yr angen i wneud ymchwil o ran effaith cronol datblygiadau;
- Gellir nodi gweithred yn y cynllun gweithredu i edrych i mewn i 'Rollback Rights' a chysylltu â Llywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad lle cyfeirir at yr arfordir ac ymestyn tir agored i'r arfordir. Fel rhan o ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad fe nodir y dylid edrych ar brofiad Lloegr yn y maes;
- Nodir fel gweithred bod y Cyd-Bwyllgor yn gofyn i'r Cyngor ystyried bod yr incwm a dderbynnir o ganlyniad i'r premiwm treth ar ail-gartrefi yn yr ardal i aros ym Mhen Llŷn ar gyfer tai fforddiadwy a chymorth i bobl ifanc i brynu tŷ yn yr ardal.

Nododd Cynrychiolydd Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig bod ganddo sylwadau pellach ar y Cynllun Rheoli ac fe fyddai'n eu hanfon ymlaen i Reolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn. Mewn ymateb, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn y byddai'n gwerthfawrogi derbyn sylwadau pellach a diolchodd i Gynrychiolydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol am y sylwadau a dderbyniodd eisoes.

PENDERFYNWYD:

- (i) bod Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn ymgorffori sylwadau'r aelodau a sylwadau pellach Cynrychiolydd Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn y Cynllun Rheoli diwygiedig drafft;**
- (ii) derbyn y Cynllun diwygiedig drafft fel sail ar gyfer ymgynghori cyhoeddus.**

5. CAIS CYNLLUNIO – THE SHANTY, ABERSOCH

Nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn bod yr adroddiad yma gerbron y Cyd-Bwyllgor ar gais y Cadeirydd. Eglurwyd bod cais cynllunio 'The Shanty, Abersoch' (cais rhif

C17/0159/39/LL) yn gais i ddymchwel tŷ a chodi tŷ newydd yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Adroddodd bod y Gwasanaeth AHNE yn unol â chytundeb gwasanaeth wedi cyflwyno sylwadau ar y cais i'r Gwasanaeth Cynllunio. Tynnwyd sylw at y materion canlynol o ran ystyried yr effaith tebygol ar yr AHNE:

- Lleoliad y safle ar yr arfordir yn yr AHNE
- Pa mor weladwy yw'r safle o fannau cyhoeddus gerllaw
- Fod adeiladau ar y safle ar hyn o bryd (heb eu rhestru)
- Yr adeiladau eraill gerllaw (maint, dyluniad, deunyddiau)
- Maint a dyluniad yr adeilad newydd arfaethedig
- Y deunyddiau a fwriedir
- Effaith posibl ar olygfeydd o'r Llwybr Arfordir uwchben y safle

Nododd bod y cais cynllunio wedi ei drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio ar 3 Gorffennaf 2017 lle penderfynwyd gohirio penderfyniad er mwyn cynnal ymweliad safle. Tynnwyd sylw y byddai'r cais yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Cynllunio ar 25 Medi 2017 yn dilyn ymweliad safle.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau roi sylwadau, nodwyd y prif bwyntiau canlynol gan aelodau unigol:

- Y dyluniad ddim yn gweddu'n hanesyddol;
- Dylid gwarchod y tŷ sydd ar y safle gan ei symud i leoliad arall oherwydd ei bwysigrwydd fel darn o hanes diweddar o'r 1950au;
- Byddai'r tŷ bwriedig yn fwy gweledol o'r môr yn hytrach na o'r Llwybr Arfordir;
- Pryder o ran effaith gronol datblygiadau o'r fath ar yr ardal;
- Byddai'r tŷ bwriedig oddeutu dwywaith ôl troed y tŷ presennol, felly'n gor-ddatblygiad o'r safle amlwg gan gael effaith weledol. Roedd Abersoch wedi colli ei gymeriad yn dilyn y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd dros y blynyddoedd;
- Ddim o blaid nac yn erbyn y bwriad. Nid oedd gan y Cyngor yr arian i amddiffyn apeliadau cynllunio ac roedd datblygiadau yn dod a gwaith i bobl leol. Yr angen i ystyried effaith caniatadau cynllunio i ddymchwel a chodi tŷ ar yr ardal;
- Y bwriad yn groes i bolisiau cynllunio gan nad oedd y tŷ bwriedig yn dilyn yr un ôl troed;
- Bod tŷ wrth ymyl y safle yn debyg i'r tŷ bwriedig;
- Byddai caniatáu'r cais yn gosod cysail a bod dyletswydd ar y Cyd-Bwyllgor i wrthwynebu'r cais.

PENDERFYNWYD cyflwyno'r sylwadau isod i sylw'r Gwasanaeth Cynllunio mewn perthynas â chais cynllunio 'The Shanty, Abersoch' (cais rhif C17/0159/39/LL):

- **Bod Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn yn gwrthwynebu'r cais ar sail:**
 - Byddai'r bwriad yn or-ddatblygiad o'r safle amlwg hon gyda'r ôl troed yn sylweddol fwy na'r tŷ presennol.
 - Byddai'r datblygiad yn ymwithiol.
- **Bod y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol yn pryderu o ran effaith gronol datblygiadau o'r fath ar yr AHNE.**

6. ETHOL AELODAU NEWYDD I'R PANEL GRANTIAU

Cyflwynwyd adroddiad Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn yn amlinellu cefndir y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, sef ffynhonnell grant gan Lywodraeth Cymru i'r pum AHNE yng Nghymru i ddyrannu ar gyfer prosiectau cynaliadwy eu naws yn eu cymunedau.

Eglurodd bod ceisiadau am arian o'r Gronfa yn cael eu hasesu yn unol â meini prawf craidd, amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Nododd mai cyfanswm y Gronfa eleni oedd £55,000 i bob ardal, ac o ran AHNE Llŷn bod £32,806 yn weddill.

Eglurodd mai'r Uned AHNE a'r Panel Grantiau sy'n gyfrifol am weinyddu Cronfa ardal Llŷn. Nododd bod y Panel Grantiau yn ymdrin â phenderfynu ar geisiadau grant dros £3,000.

Ymhelaethodd y swyddog ar rôl y Panel Grantiau, ac eglurodd fod angen ethol aelodau newydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf, yn dilyn etholiadau fis Mai 2017.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed derbyn gwybodaeth o ran yr arian a ddyrannwyd eisoes, nododd Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn amlinelliad o'r prosiectau a ddyrannwyd arian o'r Gronfa eleni ac y byddai'n anfon y wybodaeth at aelodau'r Panel Grantiau.

PENDERFYNWYD:

- (i) Derbyn yr adroddiad.**
- (ii) Ethol yr aelodau canlynol i wasanaethu ar Banel Grantiau y Gronfa Datblygu Cynaliadwy am y 5 mlynedd nesaf:
Y Cynghorydd Gareth Williams, Eirian Allport, Noel Davey, John Gosling, T. Victor Jones, Morgan Jones-Parry, Sian Parri a Gruffydd Williams.**

Dechreuodd y cyfarfod am 4.30yh a daeth i ben am 6.20yh

CADEIRYDD

Eitem 7

PWYLLGOR	Cyd-bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	20 Rhagfyr 2017
TEITL	Cynllun Rheoli – Newidiadau Arfaethedig
PWRPAS	Ystyried y sylwadau ar y Cynllun diwygiedig drafft
ADRODDIAD GAN	Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn
GWEITHREDIAD	Penderfynu ar newidiadau terfynol i'r Cynllun Rheoli diwygiedig

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Yn ystod 2015-17 bu gwaith yn mynd ymlaen ar adolygu Cynllun Rheoli yr AHNE. Roedd yn ofynnol i adolygu'r Cynllun er cydymffurfio â chyfrifoldebau Cyngor Gwynedd o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ("Crow Act") 2000.
- 1.2 Roedd y gwaith adolygu yn cynnwys casglu gwybodaeth, diweddarau rhannau o'r Cynllun o ganlyniad i ofynion newydd a pharatoi Asesiad Sgrinio. Trafodwyd gwahanol agweddau o'r Cynllun Rheoli mewn nifer o gyfarfodydd o'r Cydbwyllgor.

2.0 YMGYNGHORI

- 2.1 Yn y cyfarfod o'r Cydbwyllgor hwn a gynhaliwyd ar Fedi'r 6ed 2017 penderfynwyd derbyn y Cynllun fel drafft diwygiedig. Hefyd cytunwyd i'r swyddogion i gynnal cyfnod o ymgynghori cyhoeddus ar y Cynllun.
- 2.2 Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar Hydref yr 2ail a daeth i ben ar Dachwedd y 10fed. Roedd copiau o'r Cynllun wedi eu hargraffu a'u rhoi ar gael yn Swyddfa Cyngor Gwynedd, Pwllheli, Neuadd y Dref, Pwllheli a Chanolfan Congl Meinciau, Botwnnog. Anfonwyd e-bost neu lythyr i hysbysu fod y Cynllun Rheoli wedi ei adolygu a bod cyfle i wneud sylwadau arno i:
 - Aelodau perthnasol o Gyngor Gwynedd
 - Cynghorau Cymuned perthnasol
 - Cyrff cyhoeddus a phreifat yn gweithredu yn Llŷn
 - Mudiadau gwirfoddol lleol
 - Unigolion oedd wedi datgan diddordeb yn y Cynllun
- 2.3 Hefyd fel rhoddwyd rhybudd yn y papurau canlynol yn nodi fod y Cynllun wedi ei adolygu ac fod cyfle ar gyfer gwneud sylwadau:

Y Cambrian News
Llanw Llŷn
Ffynnon

11eg Hydref 2017
Hydref 2017
Hydref 2017

- 2.4 Yn ogystal rhoddwyd gwybod am yr ymgynghoriad trwy safleoedd safle gwe Cyngor Gwynedd a safleoedd cyfryngau cymdeithasol.

3.0 Y SYLWADAU A DDERBYNIWYD

- 3.1 Daeth sylwadau gan nifer o wahanol gyrff ac unigolion ar y Cynllun drafft diwygiedig o ganlyniad i'r cyfnod ymgynghori. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion a gafwyd yn cyfeirio at amrywiaeth o faterion.
- 3.2 Yn awr mae angen ystyried y sylwadau, ac os oes achos dros wneud newidiadau i'r Cynllun drafft.

4.0 YSTYRIED Y SYLWADAU

- 4.1 Yn fras gellir dosbarthu'r sylwadau a dderbyniwyd fel â ganlyn:
- Cywiriadau, neu awgrymiadau am newidiadau bychain
 - Datganiadau o gefnogaeth
 - Sylwadau mwy sylweddol, sydd yn golygu mwy o ddylanwad a newid ar y Cynllun.
- 4.2 Mae crynodeb o'r prif sylwadau wedi eu gosod mewn tabl (**Atodiad 1**). Er mwyn eu hystyried gosodwyd gwybodaeth yn y tabl fel â ganlyn:

Colofn 1 – y rhan o'r Cynllun y gwnaed sylw arno

Colofn 2 – enw'r unigolyn neu'r sefydliad a wnaeth y sylw

Colofn 3 – crynodeb o'r sylw

Colofn 4 – sylwadau'r Gwasanaeth AHNE

Colofn 5 - argymhelliad i newid y cynllun neu beidio

- 4.3 Bydd y Swyddogion yn arwain aelodau drwy'r tabl yn y cyfarfod.
- 4.4 Mae nifer helaeth o'r sylwadau hyn yn rhai teg a haeddiannol ac argymhellir gwneud newidiadau i'r Cynllun o ganlyniad iddynt. Dim ond mewn nifer fechan o achosion yr argymhellir peidio â newid.

5.0 ARGYMHELLIAD

- 5.1 Ystyried yr wybodaeth yn **Atodiad 1** a phenderfynu ar y newidiadau terfynol i'w gwneud i'r Cynllun Rheoli drafft.
- 5.2 Cyflwyno'r Cynllun Rheoli diwygiedig i sylw Arweinydd Portffolio Cyngor Gwynedd gyda argymhelliad ei fod yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor.

RHAN O'R CYNLLUN		SYLW GAN	CRYNODEB O'R SYLWADAU	YMATEB GWASANAETH AHNE
1	PARA 1.5.4	Cyfoeth Naturiol Cymru	Un arall o brif bwrpasau'r Cynllun yw codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo rhinweddau arbennig yr AHNE.	Cytuno gyda'r sylw. Argymhelliad: Ychwanegu cyfeiriad at godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo rhinweddau arbennig i'r paragraff.
2	CYD-DESTUN POLISI	Adran Economi ac Adfywio	Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) yn rhoi cyfleoedd gwirioneddol i gymunedau gwledig. Anogir cryfhau'r cyswllt rhwng y Cynllun a'r CDG yn sgîl y bygythiadau a'r newidiadau sydd ar droed yn sgîl Brexit.	Cytuno fod y Cynllun Datblygu Gwledig yn cynnig cyfleon sylweddol mewn sawl maes. Argymhelliad: Rhoi mwy o wybodaeth am y CDG yn y Cyd-destun.
2.1	CYD-DESTUN	Cyfoeth Naturiol Cymru	Mae'r adran yma yn cynnwys adolygiad o ddeddfau, strategaethau a dogfennau polisi. Mae'r rhannau mwyaf defnyddiol yn dangos perthnasedd a linciau i'r Cynllun. Gellir datblygu hwn ymhellach i ddangos pwysigrwydd pob dogfen a'u perthnasedd i'r Cynllun.	Cyfeiriwyd at y prif faterion heb fynd i fanylder, hefyd mae'r sefyllfa yn newid yn gyson. Gellir rhoi ystyriaeth i hyn pan yn adolygu'r Cynllun eto. Argymhelliad: Dim Newid.
2.2	PARA 2.5.1	Cyfoeth Naturiol Cymru	Byddai yn ddefnyddiol nodi fod y Confensiwn Tirlun Ewropeaidd wedi ei ddatblygu gan Gyngor Ewrop.	Cytuno gyda'r sylw. Argymhelliad; Cynnwys yr wybodaeth.
2.3	PARA 2.8	Cyfoeth Naturiol Cymru	Mae angen diweddarau i gydnabod y Polisi Amaeth Cyffredin a'r Cynllun Datblygu Gwledig a'r newid sylweddol yn sgîl Brexit a'r ansicrwydd mae hyn yn ei greu i'r sector wledig.	Cytuno â'r awgrym. Argymhelliad: Cynnwys mwy o wybodaeth am y PAC, CDG a Brexit.
2.4	PARA 2.17.3	Cyfoeth Naturiol Cymru	Gellir cynnwys rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yma.	Cytuno gyda'r sylw. Argymhelliad: Cynnwys yr wybodaeth.
2.5	PARA 2.45.5	Cyfoeth Naturiol Cymru	Awgrymir dileu "lles yr AHNE" a rhoi "pwrpas yr AHNE" yn ei le.	Cytuno gyda'r awgrym. Argymhelliad: Newid y geiriad.
3	PARA 3.1.2	Cyfoeth Naturiol Cymru	Awgrymir tanlinellu pwysigrwydd yr angen elfennol am aer glir, dŵr a thir er mwyn i fywyd dynol barhau.	Derbyn yr awgrym. Argymhelliad: Cynnwys cyfeiriad at hyn yn y paragraff.

RHAN O'R CYNLLUN		SYLW GAN	CRYNODEB O'R SYLWADAU	YMATEB GWASANAETH AHNE
3.1	PARA 3.3.3	Cyfoeth Naturiol Cymru	Byddai cysylltu perthynas yr AHNE gyda'r Gwasanaethau Ecosystem yn ddefnyddiol i ddangos perthnasedd yr AHNE i'r dull hwn o weithio.	Derbyn. Argymhelliad: Cynnwys cyfeiriad at hyn yn y paragraff.
4	PARA 4.10.2	Cyfoeth Naturiol Cymru	Rhoddir sylw i allfudo, fodd bynnag mae'r Adroddiad Cyflwr yn nodi fod y boblogaeth wedi cynyddu ac mae'n bwysig adnabod effeithiau ar yr AHNE, fel y nodir mewn mwy o fanylder yn Adran 11.	Cytuno gyda'r sylw. Argymhelliad: Cynnwys ychydig mwy o wybodaeth am fewnfudo yn para 4.10.1
5	NODWEDDION ARBENNIG CYFFREDINOL	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cydnabyddir fod nifer o weithredoedd sy'n deillio o'r Nodweddion Arbennig yn y Cynllun Gweithredu ond efallai y byddai yn ddefnyddiol i gynnwys ychydig mwy o wybodaeth am sut gall yr AHNE gynorthwyo i ymateb i rai o'r materion a godir yn y Adrannau hyn.	Gwnaed ymdrech i greu cynllun mwy cryno a chredir fod y cyswllt rhwng y materion allweddol a'r gweithredodd yn eithaf clir. Argymhelliad: Dim Newid
5.1	PARA 5.2.8	Cyfoeth Naturiol Cymru	Wrth ddefnyddio dull rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol (SMNR) byddai yn ddefnyddiol nodi hefyd y budd mae unigolion a chymdeithas yn ei gael trwy wirfoddoli a chyfrannu yn ddemocrataidd trwy ymgynghori cyhoeddus ynghlwm â'r AHNE, a digwyddiadau lleol.	Cytuno gyda'r sylwadau. Argymhelliad: Cynnwys brawddeg ychwanegol yn y paragraff yn cyfeirio at y materion hyn.
5.2	PARA 5.4.2	Cyfoeth Naturiol Cymru	Efallai y gellir cynnwys cyfeiriad at gymunedau arfordirol yn cyfyngu ar effaith newid hinsawdd ac yn dod y gryfach o ran delio efo effeithiau newid hinsawdd.	Cyfeirio at harddwch y tirlun a'r arfordir mae'r weledigaeth hon ac ni chredir fod angen cyfeirio at gymunedau arfordirol yma. Argymhelliad: Dim newid.

RHAN O'R CYNLLUN		SYLW GAN	CRYNODEB O'R SYLWADAU	YMATEB GWASANAETH AHNE
5.3	PARA 5.5.2	Cyfoeth Naturiol Cymru	Awgrymu y gellir cynnwys cyfeiriad at gynnal safon dŵr arbennig o dda.	Cytuno â'r awgrym. Argymhelliad: Cynnwys cyfeiriad at gynnal safon dŵr arbennig o dda.
5.4	PARA 5.6	Cyfoeth Naturiol Cymru	Byddai gwybodaeth fanylach o'r Adroddiad Cyflwr wedi bod yn ddefnyddiol i ddeall natur a graddfa newid mewn Cynefinoedd a Bywyd Gwyllt a deall beth angen ei wneud. Gall gwybodaeth o'r datganiadau Ardal fwydo i mewn i'r adolygiad nesaf.	Derbyn y sylw a nodir at yr adolygiad nesaf. Argymhelliad: Dim Newid.
5.6	PARA 5.11.1	Cyfoeth Naturiol Cymru	Nodir y bwriad i wella cyfleon i rai ag anabledau erbyn 2040 - ond dylai cerrig milltir o ran cyrraedd y nod hwn gael eu nodi yn llawer cynt na hynny.	Mae 2040 yn deillio o'r brif weledigaeth ac yn gamarweiniol yma. Argymhelliad: Dileu'r cyfeiriad at 2040 o'r frawddeg.
6	PARA 6.1.8	Cyfoeth Naturiol Cymru	Mae mwy o wybodaeth ar gael am ACA Pen Llŷn a'r Sarnau a fyddai yn berthnasol wrth ystyried unrhyw gynigion a allai effeithio ar yr ACA neu'r AHNE.	Cytuno. Argymhelliad: Cynnwys cyswllt i safle we ACA Pen Llyn a'r Sarnau.
6.1	PARA 6.6.1	Cyfoeth Naturiol Cymru	Pwysig nodi hefyd yr angen i gynnal a hyrwyddo cysylltedd rhwng cynefinoedd.	Derbyn y sylw. Argymhelliad: Nodi pwysigrwydd cysylltedd rhwng cynefinoedd yn yr Adran hon.
6.3	PARA 6.9.2	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Dylid gwneud mwy o'r tanddaearu gwifrau ar y Fwlch yr Eifl - un o ychydig esiamplau o wella tirlun yr AHNE.	Cytuno - gellir cyfeirio at hyn a chynlluniau eraill. Argymhelliad: Cynnwys mwy o wybodaeth am gynlluniau tanddaearu gwifrau yn y paragraff.
6.4	PARA 6.12.2	Cyfoeth Naturiol Cymru	Awgrymir nodi yr ansicrwydd o ran cynlluniau amaeth-amgylcheddol, Y Cynllun Datblygu Gwledig a Brexit.	Derbyn y sylw. Argymhelliad: Cynnwys brawddeg yn cyfeirio at hyn yn y paragraff.

RHAN O'R CYNLLUN		SYLW GAN	CRYNODEB O'R SYLWADAU	YMATEB GWASANAETH AHNE
6.5	POLISI TP2- GWRTHSEFYLL DATBLYGIADAU FYDDAI YN AMLWG AR Y TIRLUN.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Efallai fod lle i ystyried cyfeirio at leihau effeithiau datblygiadau presennol yn y polisi hwn.	Mae Polisi TP 5 yn cyfeirio at safleoedd ac adeiladau blêr ac ymwthiol. Argymhelliad: Dim Newid
6.6	POLISI TP3 - GWARCHOD ARFFORDIR ARBENNIG LLYN	Cyfoeth Naturiol Cymru	Awgrymir cynnwys y gair "anaddas" o ran datblygiadau fyddai yn cyd-fynd gyda Polisi Cynllunio Cymru.	Cytuno â'r awgrym. Argymhelliad: Newid y polisi trwy newid y gair "arwyddocaol" gyda "anaddas".
6.7	POLISI TP9 - GWRTHSEFYLL DATBLYGIADAU CARAFANAU NEWYDD AC ESTYNIADAU I SAFLEOEDD PRESENNOL MEWN LLEOLIADAU AMLWG AR DIRLUN NEU ARFFORDIR YR AHNE.	Mr Peter Hewlett	Mae geiriad y polisi drafft yn awgrymu fod safleoedd carafanau teithiol newydd ac estyniadau i rai presennol yn dderbyniol os nad dynt "mewn lleoliadau amlwg ar y tirlun neu'r arfordir" . Beth a olygir gyda "amlwg" ? Mae hyn yn agored i wahanol farn ac felly fe allai olygu fod y Polisi yn ddi-werth fel modd o atal carafanau rhag difrodi y tirlun, posibilrwydd sydd yn cael ei godi yn y Cynllun. Dylai'r polisi nodi "Gwrthwynebu datblygiadau carafanau newydd ac estyniadau i safleoedd presennol yn, a gerllaw'r AHNE, a hyrwyddo tirlunio safleoedd presennol."	Mae'r Cynllun yn cydnabod fod carafanau yn medru cael effaith ar dirlun yr ardal a golygfeydd a chytunir fod pwysedd gan y math yma o ddatblygiadau wedi cynyddu yn ddiweddar. Oherwydd hynny awgrymir cynnal arolwg o garafanau yn yr ardal yn 2019 fel ychwanegiad i'r Cynllun. Ond rhaid derbyn fod carafanau yn ddull arallgyfeirio a ffynhonnell incwm pwysig. Hefyd, bydd ceisiadau yn cael ei penderfynu ar sail y Polisiâu Cynllunio Lleol a Chenedlaethol. Credir ei bod yn bwysig pwysu a mesur ceisiadau yn ofalus a gwrthwynebu safleoedd sydd yn anaddas. gellir mesur addasrwydd trwy pa mor amlwg ar y tirlun yw'r safle, mynediad cyhoeddus, mynediad, dynodiadau lleol ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Argymhelliad: Dim Newid.
7	TAWELWCH A LLYGREDD ISEL - PRIF NOD	Cyfoeth Naturiol Cymru	Fyddai "tangnefedd"/"tranquility" yn fwy addas na "diogelwch" ?	Cytuno, camgymeriad yw hwn. Argymhelliad: Cyfnewid "Diogelwch" am "Dangnefedd".

RHAN O'R CYNLLUN		SYLW GAN	CRYNODEB O'R SYLWADAU	YMATEB GWASANAETH AHNE
8	PARA 8.1.6	Cyfoeth Naturiol Cymru	Mae hwn angen ei ddiweddarau o ran y cyfrifoldebau newydd am fioamrywiaeth a ecosystemau ar awdurdodau cyhoeddus - adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn ogystal â datganiadau clir i warchod safleoedd dynodedig.	Cytuno fod angen diweddarau'r wybodaeth.. Argymhelliad: Cynnwys gwybodaeth am Deddf Amgylchedd Cymru a chyfrifoldebau perthnasol.
8.1	PARA 8.2.2	Cyfoeth Naturiol Cymru	Pan fo coedlannau ar dir ym mherchnogaeth CNC mae'n bwysig i'r AHNE gael mewnbwn i'r Cynlluniau Adnodd Coedwigaeth sy'n cael eu paratoi.	Cytuno. Argymhelliad: Holi CNC os oes ganddynt goedlannau yn yr AHNE a newid y para i adlewyrchu hynny.
8.3	POLISI B1 - CYNEFINOEDD	Cyfoeth Naturiol Cymru	Awgrymir cyfuno gyda Polisi B3 er cryfhau'r geiriad.	Nodir y sylw ond credir y byddai'r well cadw'r ddau bolisi ar wahân. Argymhelliad: Cryfhau geiriad Polisi BP 1 i gynnwys y cymal ychwanegol yn polisi BP 3.
8.3	POLISI BP 1 - CYNEFINOEDD	CNC - Adran Aseiad Amgylcheddol	Awgrymir newid y cyfeiriad at gyflwr safleoedd o "boddhaol" i "ffafriol" er mwyn cysondeb â'r iaith a ddefnyddir wrth fonitro safleoedd.	Cytuno â'r awgrym. Argymhelliad: Cynnwys y gair "ffafriol" yn lle "boddhaol" yn y polisi.
8.4	POLISI BP 1 - CYNEFINOEDD	CNC - Adran Aseiad Amgylcheddol	Argymhell cynnwys cam diogelu o dan y polisi: "Dylai'r holl gynigion ddangos sut y maent yn osgoi effeithiau niweidiol ar safleoedd Ewropeaidd unigol a SoDDGA, ac ar gydlynid y rhwydwaith yn ei gyfanrwydd."	Gellir cynnwys y cam diogelu yn eglurhad y polisi. Argymhelliad: Cynnwys y cam diogelu yn eglurhad polisi BP 1.
8.6	POLISI BP 3 - RHYWOGAETHAU	CNC - Adran Aseiad Amgylcheddol	Awgrymir newid y cyfeiriad at gyflwr safleoedd o "boddhaol" i "ffafriol" er mwyn cysondeb â'r iaith a ddefnyddir wrth fonitro safleoedd.	Cytuno â'r awgrym. Argymhelliad: Cynnwys y gair "ffafriol" yn lle "boddhaol" yn y polisi.

RHAN O'R CYNLLUN		SYLW GAN	CRYNODEB O'R SYLWADAU	YMATEB GWASANAETH AHNE
10	YR IAITH GYMRAEG A DIWYLLIANT - CYFFREDINOL	Cyfoeth Naturiol Cymru	Gellir cyfeirio at bolisiau Llywodraeth Cymru e.e. Iaith Fyw 2012-17 a Chymraeg 2050 yn Mynd a Chymru Ymlaen 2016-2021 gyda'r targed o 1 miliwn o siaradwyr.	Cytuno. Argymhelliad: Cynnwys cyfeiriad at y materion hyn yn y Cyflwyniad.
10.1	YR IAITH GYMRAEG A DIWYLLIANT - CYFFREDINOL	Cyfoeth Naturiol Cymru	Mae tirlun, bywyd gwylt a mannau i ymweld â hwy yn adnodd i gynnal yr iaith Gymraeg trwy enwau ar fannau, bywyd gwylt a llystyfiant. Hefyd mae cysylltiad efo sgiliau gwledig e.e. ffermio, rheoli tir ayb. Mae llawer o'r termau yma, yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn cael eu colli.	Maen hyn yn wir ac mae'r Gwasanaeth AHNE wedi datblygu prosiectau i gofnodi gwybodaeth am enwau caeau, ffynhonnau a'r arfordir. Argymhelliad: Cynnwys cyfeiriad at bwysigrwydd cynnal enwau ar weithgareddau a sgiliau yn y Cynllun.
10.2	YR IAITH GYMRAEG A DIWYLLIANT - CYFFREDINOL	Cyfoeth Naturiol Cymru	Bydd cefnogaeth i'r diwydiant amaeth a meithrin entrepreneuriaeth yn bwysig i gymunedau gwledig yn dilyn Brexit er cynnal siaradwyr Cymraeg.	Cytuno â'r sylw, mae'r Cynllun yn anelu i gefnogi amaeth a chymunedau gwledig, a bydd mesurau cefnogol eraill gan y Cyngor hefyd. Argymhelliad: Dim newid.
10.3	YR IAITH GYMRAEG A DIWYLLIANT - CYFFREDINOL	Cyfoeth Naturiol Cymru	Mae'r AHNE mewn lle da i gyrraedd cynulleidfa newydd a sefydliadau chwaraeon er hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn eu gweithgareddau yn ogystal â chefnogi cyfryngau digidol a technoleg.	Sylw diddorol, mae'r rhan fwyaf o sefydliadau chwaraeon a chymdeithasol yn yr ardal yn defnyddio'r Gymraeg yn barod. Argymhelliad: Dim Newid

RHAN O'R CYNLLUN		SYLW GAN	CRYNODEB O'R SYLWADAU	YMATEB GWASANAETH AHNE
11	POBOL A CHYMUNED - CYFFREDINOL	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cefnogir y rhan yma a'r cysylltiad gyda amcanion Deddf Llesiant ond yn hoffi gweld llawer mwy o gysylltiad rhwng iechyd a gwaith yr AHNE. Mae gan y Tirweddau Dynodedig le unigryw i'w chwarae o ran iechyd meddwl ac atal salwch a'i bod yn bwysig rhoi sylw i hyn yn y Cynllun gan wneud cysylltiadau rhwng rheoli adnoddau naturiol (awyr iach, dŵr a thir cynhyrchiol), bywyd gwyllt, tawelwch, llygredd, newid hinsawdd, cymunedau, ymglymiad cymdeithasol, hamdden, mynediad a chefnogi'r economi leol.	Cytuno fod gan yr AHNE le pwysig i'w chwarae o ran iechyd, lles meddyliol a chorfforol ac atal salwch. Argymhelliad: Cynnwys mwy o gefndir o ran y buddion iechyd a lles all yr AHNE ei gynnis yng nghyflwyniad yr Adran hon.
11.1	POLISI GP6: HYRWYDDO A CHYNORTHWYO MENTRAU CYDWEITHREDOL	Swyddog Adfywio Cymunedol	Awgrymu newid o "CYDWEITHREDOL" i "CYMDEITHASOL" gan fod hyn yn cwmpasu mwy o sefydliadau.	Cytuno fod hwn yn derm mwy addas. Argymhelliad: Newid "Cydwethredol" i "Cymdeithasol".
12	CYNNYRCH LLEOL A BUSNESAU GWLEDIG - CYFFREDINOL	Adran Economi ac Adfywio	Mae'r Adran wedi datblygu a gweithredu cynlluniau sydd yn cefnogi pobl ifanc i fentro mewn busnes ac i aros yn eu milltir sgwâr. Oes cyfle drwy'r Cynllun i ategu pwysigrwydd y genhedlaeth ifanc i aros yn Llŷn a'r gefnogaeth i gynlluniau sydd yn annog creu swyddi o werth uchel ?	Mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd pobol ifanc i'r gymuned a'r ardal, cytuno fod Swyddi Gwerth Uchel yn bwysig yn hyn o beth. Argymhelliad: Cynnwys gwybodaeth am gynlluniau Swyddi Gwerth Uchel a'r cyfraniad y gallent eu wneud i helpu pobol ifanc aros yn yr ardal.

RHAN O'R CYNLLUN		SYLW GAN	CRYNODEB O'R SYLWADAU	YMATEB GWASANAETH AHNE
12.1	CYNNYRCH LLEOL A BUSNESAU GWLEDIG - CYFFREDINOL	Adran Economi ac Adfywio	Mae cryfhau cysylltiadau digidol yn greiddiol mewn ardal wledig. Croesawn ddatblygiadau yn y maes digidol er mwyn i drigolion gael mynediad i swyddi gwerth uchel. Byddwn yn awyddus i weld hynny yn digwydd yn y modd mwyaf sensitif i'r amgylchedd lleol a'r AHNE.	Cydnabyddir fod y maes digidol yn cynnig cyfleon i ardal wledig fel Llŷn ac fod ddim llawer yn cael ei nodi am hynny yn y Cynllun Rheoli. Argymhelliad: Cynnwys mwy o wybodaeth am y maes digidol a'r cyfleon sy'n bodoli yn sgîl hynny.
12.1	POLISI GP 1 - HYRWYDDO'R DIWYDIANT FFERMIO TRWY FENTRAU MARCHNATA, MEITHRIN SGILIAU GWLEDIG TRADDODIADOL.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Mae AHNE eraill Cymru wedi llwyddo i ddatblygu cynlluniau sgiliau gwledig gyda colegau lleol neu PC Eryri. Mae hyn yn cysylltu i Polisi TP4.	Mae hyn wedi ei adnabod fel gweithred a Pholisi. Argymhelliad: Dim Newid.
12.11	POLISI GP 9 - DATBLYGIADAU HAMDDEN	CNC - Adran Aseiad Amgylcheddol	Awgrymir hefyd y dylai bod cyfeiriad eglur at "safleoedd gwarchoddedig eraill".	Cytuno â'r awgrym. Argymhelliad: Cynnwys "neu safleoedd gwarchoddedig eraill" ar ddiwedd y polisi.

RHAN O'R CYNLLUN		SYLW GAN	CRYNODEB O'R SYLWADAU	YMATEB GWASANAETH AHNE
12.2	CYNNYRCH LLEOL A BUSNESAU GWLEDIG - CYFFREDINOL	Adran Economi ac Adfywio	<p>Mae'r diwydiant twristiaeth yn bwysig ym Mhen Llŷn ac mae dylanwad y diwydiant yn fawr ar economi ac amgylchedd yr ardal. A oes modd cynyddu statws twristiaeth o fewn y Cynllun ?</p> <p>Mae ei ddylanwad yn amlwg ar faterion megis yr amgylchedd, isadeiledd, gwasanaethau, cymunedau ac mae cyfle drwy'r Cynllun i gydweithio i adnabod blaenoriaethau ac yn ei dro cynlluniau a allai gyrraedd cydbwysedd rhwng datblygiad a gwarchodaeth. Er yn heriol, credir y byddai'n fuddiol trafod y cyfle i gynyddu gwariant ymwelwyr ac ymestyn y tymor yn yr ardal a hynny mewn ffordd gynaliadwy a gwarchodol o'r amgylchedd.</p>	<p>Cytuno fod y diwydiant yn dod ag incwm a gwaith ac yn cael dylanwad sylweddol ar yr ardal.</p> <p>Argymhelliad: Cynnwys mwy o wybodaeth am gyfraniad ariannol a swyddi mewn twristiaeth yn y Cynllun a rhoi mwy o ystyriaeth i'r cyfleon a'r sgîl effeithiau yn y Strategaeth Dwristiaeth Gynaliadwy arfaethedig.</p>
12.3	CYNNYRCH LLEOL A BUSNESAU GWLEDIG - CYFFREDINOL	Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata	Tydi pwysigrwydd y sector i'r gymuned arfordirol yma ddim yn amlygu. Rhoddir y pwyslais ar y goblygiadau ar anawsterau.	<p>Fel a nodir uchod bwriedir cynnwys mwy o wybodaeth am gyfraniad economaidd twristiaeth ac edrych yn fanylach ar y mater yn y Strategaeth.</p> <p>Argymhelliad: Newid fel uchod.</p>
12.4	CYNNYRCH LLEOL A BUSNESAU GWLEDIG - CYFFREDINOL	Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata	Pwysigrwydd digwyddiadau a'r Llwybr Arfordir Cenedlaethol angen mwy o sylw.	<p>Rhoddi cryn sylw i'r Llwybr Arfordir ond ddim llawer i ddigwyddiadau. Argymhelliad: cynnwys mwy o wybodaeth am ddigwyddiadau yn a gerllaw'r ardal a chyfleon i gynhyrchwyr.</p>
12.5	CYNNYRCH LLEOL A BUSNESAU GWLEDIG - CYFFREDINOL	Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata	Angen mwy o gyswllt gyda'r Ddeddf Llesiant o ran y maes Hamdden a Thwristiaeth.	<p>Cytuno. Argymhelliad: Cynnwys cyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn yr Adran hon.</p>

RHAN O'R CYNLLUN		SYLW GAN	CRYNODEB O'R SYLWADAU	YMATEB GWASANAETH AHNE
12.6	CYNNYRCH LLEOL A BUSNESAU GWLEDIG - CYFFREDINOL	Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata	Rhaglen Ffyrdd Cymru – rhaglen Dat Econ / Adfywio Llywodraeth am y deg mlynedd nesaf gyda Croeso Cymru yn arwain. Ffordd y Glannau yn cychwyn yn Aberdaron a gorffen yn Nhŷ Ddewi.	Mae hwn yn gynllun newydd gan Llywodraeth Cymru. Argymhelliad: Cynnwys gwybodaeth am y Rhaglen Ffyrdd Cymru yn y Cynllun.
12.7	PARA 12.2.1	Cyfoeth Naturiol Cymru	Credir y byddai yn fuddiol cyfeirio at gynnal bridiau lleol e.e. defaid Llŷn oherwydd eu bod yn helpu i gynnal cymeriad a naws yr ardal.	Mae amrywiaeth o fridiau gwartheg a defaid yn yr ardal ac mae defaid Llŷn bellach yn boblogaidd mewn llawer ardal. Argymhelliad: Dim Newid.
12.8	PARA 12.8.1	Cyfoeth Naturiol Cymru	Byddai yn fuddiol i gynnwys gwybodaeth am bwysigrwydd swyddi yn y sector gyhoeddus yma.	Cytuno, byddai yn ddefnyddiol cynnwys gwybodaeth ychwanegol. Argymhelliad: Cynnwys gwybodaeth am bwysigrwydd y sector gyhoeddus yn y paragraff.
12.9	PARA 12.8.1	Cyfoeth Naturiol Cymru	Ydi cyflogaeth tymhorol felly yn fater i gyfeirio ato fel ystyriaeth ?	Gellir cyfeirio at natur tymhorol swyddi yn y maes twristiaeth. Argymhelliad: Ychwanegu gwybodaeth am hyn yn y paragraff.
13	HAWLIAU TRAMWY A MYNEDIAD - CYFFREDINOL	Cyfoeth Naturiol Cymru	Mae Tir Mynediad Agored, yn cynnwys Tir Comin, a ddynodwyd dan Ddeddf CRoW 2000 yn dir mynediad pwysig a gysylltiedig gan Hawliau Tramwy a'r Llwybr Arfordir. Efallai fod manau lle gellir creu llwybrau newydd i greu mynediad i'r tiroedd hyn. Hefyd mae lle i godi ymwybyddiaeth am y llwybrau hyn o bwysigrwydd mawr ac mae angen cyfleu yr wybodaeth mewn dulliau heblaw mapiau AO e.e. mapiau electronig ac appiau.	Mae'r Gwasanaeth AHNE yn gefnogol i lwybrau newydd i gysylltu â thir mynediad ac wedi cyfrannau at ariannu llwybrau o'r fath. Cytunir hefyd y byddai'n dda codi ymwybyddiaeth ohonynt trwy amrywiol dulliau. Argymhelliad: Cynnwys gweithred ychwanegol yn cyfeirio at greu llwybrau cysylltiol newydd at dir mynediad a chodi ymwybyddiaeth yn ddigidol a thrwy Llygad Llŷn.

RHAN O'R CYNLLUN		SYLW GAN	CRYNODEB O'R SYLWADAU	YMATEB GWASANAETH AHNE
13.2	PARA 13.1.8	Cyfoeth Naturiol Cymru	Byddai yn ddefnyddiol pwysleisio y cyswllt gyda Partneriaeth Tirlun Llŷn e.e. gwaith ymarferol i wella llwybrau a chysylltiadau gyda Ecoamgueddfa Llŷn.	Cytuno. Argymhelliad: Cyfeirio at y materion yn y Cyflwyniad fel gwaith a wnaed eisoes a chyfleon at y dyfodol.
13.3	PARA 13.11.2	Cyfoeth Naturiol Cymru	Wrth adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy mae angen rhoi ystyriaeth i sut fydd HT yn cael ei rheoli yn y dyfodol, yn arbennig mewn perthynas â blaenoriaethau ac adnoddau ar gael. Ni fydd yn bosib gwireddu'r weledigaeth o ran HT heb adnoddau eraill neu gynllun busnes. Oherwydd fod rhannau sylweddol ddim mewn defnydd "cyson" mae perygl i'w statws yn sgîl y criteria presennol.	Sylw teg fydd yn cael ei anfon ymlaen i'r Uned Hawliau Tramwy am ystyriaeth bellach. Argymhelliad: Dim Newid.
13.4	PARA 13.11.2	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cefnogir sefydlu a datblygu grŵp gwirfoddolwyr i wneud rhan o'r gwaith sy'n llesol o ran iechyd, cyfrannu, cymuned a'r iaith Gymraeg ond ni all hynny fod yn gwbl ddigonol i atal colli rhannau pwysig o'r rhwydwaith.	Cytuno gyda'r sylwadau - eu hanfon ymlaen i'r Uned Hawliau Tramwy. Argymhelliad: Dim Newid.
14	CYNLLUN GWEITHREDU - CYFFREDINOL	Adran Economi ac Adfywio	Croesawu cydweithio ar wireddu rhannau o'r Cynllun Gweithredu. Credir y byddai o fantais cyfeirio at sut y bydd yr AHNE yn cyfrannu tuag at reoli twristiaeth yn yr ardal a'r plethiant gyda'r gwaith Rheoli Cyrchfan a blaenoriaethau Strategol y Cyngor.	Mae gweithred wedi ei nodi dan Bolisi GP 10 yn nodi "Comisiynnu a chyhoeddi Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy ar gyfer Llŷn a'r AHNE". Argymhelliad: Cynnwys mwy o wybodaeth am reoli cyrchfan a gosod yr Adran Economi ac adfywio fel partner o ran y Strategaeth Dwristiaeth Gynaliadwy.

RHAN O'R CYNLLUN		SYLW GAN	CRYNODEB O'R SYLWADAU	YMATEB GWASANAETH AHNE
14.1	PARA 14.1.3	Cyfoeth Naturiol Cymru	Croesawir y cyfeiriad at asesu llwyddiant y Cynllun blaenorol ond credu y gellir rhoi mwy o wybodaeth i weld beth oedd yn effeithiol, beth oedd heb weithio a phaham.	Gellir cynnwys ychydig mwy o wybodaeth. Argymhelliad: Cynnwys mwy o wybodaeth am llwyddiannau'r Cynllun Rheoli blaenorol yn y paragraff.
14.2	PARA 14.2.1	Cyfoeth Naturiol Cymru	Adnabyddir pwysigrwydd ymgysylltu gyda sectorau perthnasol wrth ddatblygu'r Cynllun er mwyn perchnogaeth ac ymrwymiad i gydweithio a gwireddu rhannau perthnasol.	Cytuno gyda'r sylw. Argymhelliad: Cynnwys cyfeiriad at ymgysylltu ac ymgynghori.
14.3	PARA 14.2.4	Cyfoeth Naturiol Cymru	Efallai y gellir tynnu sylw at brosiectau y Gronfa sydd yn gysylltiedig â'r Cynllun i ddangos y cyfraniad a all y Gronfa ei wneud i wireddu blaenoriaethau allweddol.	Cytuno. Argymhelliad: Cynnwys gwybodaeth am rai prosiectau llwyddiannus yn y paragraff.
14.4	GWEITHREDU - POLISI TP 9 - CARAFANAU	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Credir fod angen gweithred i gyd-fynd â'r datganiad yn para 6.13.2 (fod angen asesiad manwl o garafanau yn yr AHNE) er mwyn darparu tystiolaeth mewn achosion o geisiadau am safleoedd newydd ac estyniadau, yr effaith gronol ar y tirlun a hefyd er cryfhau'r polisi cynllunio.	Sylw rhesymol a theg. Argymhelliad: Cynnwys gweithred ychwanegol dan y polisi yn nodi y bwriedir cynnal arolwg o garafanau yn ardal Llŷn a'r AHNE yn 2019. Partner arweiniol: Cyngor Gwynedd.
14.5	GWEITHREDU - POLISI TP9 - CARAFANAU	Cyfoeth Naturiol Cymru	Gellir cryfhau yma drwy gydweithio hefo partneriaid perthnasol i fonitro os yw safleoedd yn cydymffurfio gyda'r hawliau.	Cytuno. Argymhelliad: Cynnwys gweithred ychwanegol yn cyfeirio at fonitro safleoedd carafanau a nodi Cyngor Gwynedd fel partner arweiniol.
14.6	POLISI PP2 - DŴR A PHRIDD	Cyfoeth Naturiol Cymru	Gellir cyfeirio at y gwaith gan CNC mewn perthynas â dŵr a phridd.	Derbyn y sylw. Argymhelliad: Cynnwys hyn fel pwynt gweithredu.

RHAN O'R CYNLLUN		SYLW GAN	CRYNODEB O'R SYLWADAU	YMATEB GWASANAETH AHNE
14.7	POLISI BP3 - RHYWOGAETHAU	Cyfoeth Naturiol Cymru	Byddai CNC yn falch o'r cyfle i roi mewnbwn i'r brosiectau ail-gyflwyno siacar goch a cynyddu dyfrgwn yn yr ardal a chefnogir y Côd Morol.	Falch o'r gefnogaeth a'r diddordeb. Argymhelliad: Gosod Cyfoeth Naturiol Cymru fel partner gyda'r prosiectau.
14.8	POLISI BP6 - RHYWOGAETHAU YMLEDOL	Cyfoeth Naturiol Cymru	Mae CNC yn ymwneud gyda rhaglen waith gynhwysfawr o ran trin rhywogaethau ymledol (INNS) sy'n cael ei ariannu gan Llywodraeth Cymru. Byddai yn fuddiol i AHNE Llŷn ac adrannau perthnasol o Gyngor Gwynedd i gysylltu efo hyn os na wnaed eisoes.	Gwybodaeth ddefnyddiol. Argymhelliad: Cyfeirio at hyn yn y Cynllun Gweithredu.
14.9	GWEITHREDU POLISI HP6: MYNEDIAD AT ADNODDAU HANESYDDOL LLEOL	Swyddog Adfywio Cymunedol	Awgrymu gweithred ychwanegol: Rhoi cefnogaeth i dargedu ffynonellau cefnogaeth ac ariannol. Partneriaid - Gwasanaeth Adfywio Cymunedol ac eraill.	Cytuno gyda'r awgrym gan y byddai'n cryfhau'r Cynllun ac yn adlewyrchu'r gwaith a wneir. Argymhelliad: Gosod gweithred ychwanegol dan bolisi HP 6.
14.1	GWEITHREDU POLISI CP1 - CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL	Swyddog Adfywio Cymunedol	Awgrymu gweithred ychwanegol: Hyrwyddo cynaliadwyedd adnoddau cymunedol drwy ddatblygu gwasanaethau sy'n ymateb i gyfleon lleol. Partneriaid: Gwasanaeth Adfywio Cymunedol	Cytuno, byddai yn cryfhau'r Cynllun ac yn adlewyrchu'r gwaith a wneir. Argymhelliad: Gosod gweithred ychwanegol dan y polisi CP1.
14.11	POLISI MP 3 - HYRWYDDO'R DEFNYDDO GYLCHDEITHIAU LLEOL	Cyfoeth Naturiol Cymru	Gyda phrinder adnoddau byddai yn ddefnyddiol ail-ymweld gwaith a wnaed eisoes e.e. Cylchdeithiau Arfordirol yn cysylltu i'r Llwybr Arfordir a hyrwyddo cyfleusterau beicio a ddatblygwyd yn 2004 yn ogystal â hyrwyddo'r ardal yn sgîl Sportif Beicio Llŷn.	Mae'r Gwasanaeth AHNE wedi cydweithio ar y cylchdeithiau arfordirol a chodi ymwybyddiaeth, wedi ail-lansio'r teithiau beics yn 2017 ac wedi noddi y Sportif Beicio. Argymhelliad: Dim Newid.

RHAN O'R CYNLLUN		SYLW GAN	CRYNODEB O'R SYLWADAU	YMATEB GWASANAETH AHNE
14.12	POLISI MP7- HYRWDDO DULLIAU CYNALIADWY O DEITHIO.	O Ddrws i Ddrws	Cefnogir y Polisi a'r weithred o "Rhedeg a hyrwyddo gwasanaeth Bws Arfordir Llŷn". Bydd hynny yn golygu y bydd cais am adnoddau i redeg y gwasanaeth arloesol yn cael ei wneud pan yn cyflwyno cyllideb ar gyfer AHNE Llŷn yn ystod y misoedd nesaf.	Nodir y sylw a'r gefnogaeth i'r Polisi. Fodd bynnag, menter gan O Ddrws i Ddrws yw hon ac nid yw'r ffaith fod cyfeiriad at y Bws Arfordir yn golygu y bydd y Gwasanaeth AHNE yn gwneud cais i'w ariannu. Argymhelliad: Dim Newid.
15	PARA 15.2.1	Cyfoeth Naturiol Cymru	Dylai adrodd ar gynnydd ffurfio rhan o ddiweddarau CNC ar gynnydd o ran Cyllid Partneriaeth ac adroddiadau diwedd blwyddyn.	Cytuno gyda'r hyn a gynigir. Argymhelliad: Newid y paragraff i gyfeirio at hyn.
15.1	PARA 15.6.1	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Gallai'r Cydbwyllgor fod yn fwy effeithiol/ gweithredol o ran monitro'r Cynllun Gweithredu a'r polisiau yn gyson; gallai hyn wneud diweddarau'r Cynllun tro nesaf yn haws.	Gall y gwasanaeth AHNE adrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor yn gyson. Ni chredir fod angen newid y paragraff. Argymhelliad: Dim Newid.
16	ADRODDIAD SGRINIO	Cyfoeth Naturiol Cymru - Adran Asesiad Amgylcheddol	Adroddiad Amgylcheddol Strategol (AAS) - derbynir nad yw'r newidiadau arfaethedig yn yr adolygiad hwn yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd.	Derbyn y sylw. Argymhelliad: Dim Newid
16.1	ADRODDIAD SGRINIO	CNC - Adran Asesiad Amgylcheddol	Mae'n debygol y bydd angen AAS llawn ar gyfer yr adolygiad nesaf o'r Cynllun.	Derbyn y sylw. Argymhelliad: Dim Newid - i'w ystyried ar gyfer yr adolygiad nesaf.
16.2	ADRODDIAD SGRINIO	CNC - Adran Asesiad Amgylcheddol	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) - cytunir â'r casgliad o ddim effeithiau sylweddol tebygol os cynhelir asesiadau ARhC ar lefel cynllun haen isaf neu lefel prosiect. Dylid nodi hyn yn y ARhC.	Cytunir fod achosion yn bodoli lle mae'n anodd mesur effaith cynllun neu brosiect ar lefel haen uchaf. Argymhelliad: Addasu'r Adroddiad Sgrinio i adlewyrchu'r sefyllfa a chynnwys cyfeiriad at hyn yn y Cynllun Rheoli.

RHAN O'R CYNLLUN		SYLW GAN	CRYNODEB O'R SYLWADAU	YMATEB GWASANAETH AHNE
16.3	ADRODDIAD SGRINIO	CNC - Adran Aseiad Amgylcheddol	Tabl 1 - awgrymir fod effaith rhai polisïau yn ansicr ar y lefel hon a dylid dangos hynny yn y tabl a nodi y bydd angen ARhC ar lefel haen isaf neu brosiect.	Derbyn. Argymhelliad: Addasu'r Adroddiad Sgrinio i adlewyrchu hyn.
17	CYFFREDINOL	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Ceir ar ddeall by bydd y fersiwn derfynol yn cynnwys lluniau, graffiau, mapiau ayb. Byddai cyfle i wneud sylwadau ar y rhain yn cael ei groesawu.	Y drefn arferol yw dirprwyo'r hawl i swyddogion benderfynu ar y materion hyn. Argymhelliad: Cynnwys lluniau, mapiau a graffiau yn y Cynllun terfynol fel y bwriadwyd.
17.1	CYFFREDINOL	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Ceir ar ddeall y bwriedir paratoi fersiwn gryo/crynodeb a chroesawir hyn. Byddai cyfle i wneud sylwadau ar y ddogfen yn cael ei groesawu.	Cytuno. Argymhelliad: Dim newid i'r Cynllun ond dod a'r fersiwn gryo gerbron y Cydbwyllgor am sylwadau.
17.2	CYFFREDINOL	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Byddai rhestr gyfeirio/ llyfryddiaeth, troednodiadau a chyfeiriad at safleoedd gwe yn ddefnyddiol.	Mae bwriad i gynnwys rhain. Argymhelliad: Cynnwys rhestr gyfeirio/ llyfryddiaeth, troednodiadau a chyfeiriadau at safleoedd gwe fel a fwriadwyd.
17.3	CYFFREDINOL	Cyfoeth Naturiol Cymru	Mae'r Adroddiad o Gyflwr yr AHNE yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol er darparu sail ar gyfer y Cynllun. Fodd bynnag credir y byddai yn fwy effeithiol i gryfhau rhai manau: diffyg gwybodaeth am gyflwr bioamrywiaeth, mwy o wybodaeth am y diwydiant pysgota, adeiladau rhestredig, twristiaeth, safon dŵr, newid hinsawdd ac yn fwyaf penodol iechyd a lles - lle credir fod gan yr AHNE rôl bwysig i'w chwarae.	Roedd yr Adroddiad o Gyflwr yr AHNE wedi ei chomisiynu gan Gwmni LUC ar ran Tirweddau Dynodedig gogledd Cymru. Derbynnir fod rhai manau gwan ynddi a gellir cywiro hyn ar gyfer yr adolygiadiad nesaf o'r Cynllun. Hefyd mae gan y gwasanaeth AHNE wybodaeth gefndir ychwanegol sydd heb ei gynnwys yn y Cynllun a'r bwriad yw cynnwys yr wybodaeth mewn dogfen ar y safle we. Argymhelliad: Dim Newid ond nodi'r sylwadau ar gyfer yr adolygiad nesaf.